Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre
# Heol Myddfai
# Felindre
# Abertawe
# SA5 7ND

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2015**

## Cyd-destun

Lleolir ysgol Felindre ym mhentref Felindre, Sir Abertawe.

Mae 57 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 6 o ddisgyblion meithrin rhan amser. Maent wedi'u trefnu'n dri dosbarth oed cymysg.

Mae 10% o'r disgyblion yn deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n sylweddol is na chyfartaleddau Cymru. Daw tua 12% o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 30% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Bu llawer o newid i sefyllfa staffio'r ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r pennaeth yn ei swydd ar gytundeb parhaol ers Medi 2014. Bu'n gweithredu fel pennaeth dros dro ers Medi 2013. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror, 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre yn 2014-2015 yn £5,036 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Abertaweyw £7,839 a'r lleiafswm yw £2,665. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre yn y trydydd safle o'r 80 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau ac yn ymateb yn hyderus i'r tasgau a roddir
- bod disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac wrth chwarae gyda'i gilydd ar y buart
- bod rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a gytunwyd iddynt
- bod rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cymryd cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau am eu dysgu yn effeithiol
- bod ethos yr ysgol yn gartrefol a chynhwysol ac yn darparu cyfle cyfartal i bawb

Fodd bynnag:

- nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ar draws yr ysgol mewn agweddau o lythrennedd yn y Gymraeg
- nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm
- nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- y pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth a gwerthoedd priodol i ysgogi cydweithio effeithiol ymysg staff
- gymuned ddysgu ysgol gyfan yn datblygu'n llwyddiannus
- adroddiadau dilynol sy'n crynhoi'r deilliannau monitro yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol
- cysylltiadau cryf â rhieni, y gymuned leol a nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol sy'n ehangu a chyfoethogi medrau cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn effeithiol

Fodd bynnag:

- nid yw cyfrifoldebau strategaethol y staff wedi datblygu'n llawn i ddylanwadu ar godi safonau ar draws yr ysgol
- nid yw rôl strategol y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu wedi'i datblygu'n llawn
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cyflwyno darlun digon cywir o berfformiad bresennol yr ysgol

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwelliant pellach mewn medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg ar draws yr Ysgol

A2 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cynyddu gallu'r disgyblion i arfarnu a gwella eu gwaith

A4 Cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol

A5 Gwella cysondeb yn ansawdd yr addysgu i ddarparu mwy o gyfleoedd i herio ac ymestyn y disgyblion mwy abl

A6 Cryfhau y cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol y mwyafrif o ddisgyblion wrth ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol islaw'r disgwyl. Serch hynny, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar rhanfwyaf y disgyblion yn datblygu'n fuan. Mae llawer o ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n dda yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae hyn yn datblygu'n ymhellach yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r mwyafrif yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol, er enghraifft, wrth iddynt drafod eu profiadau yn y ganolfan ddŵr yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae lleiafrif y disgyblion yn llai hyderus i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen gyda mynegiant gan ddefnyddio strategaethau darllen ffonig yn addas wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Gall y lleiafrif drafod cynnwys yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau y maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn briodol yn y ddwy iaith ac mae eu dealltwriaeth o'r hyn maent yn eu darllen yn datblygu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, er enghraifft, am Oes Fictoria.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu fel adroddiad a cherdyn post. Maent yn dechrau defnyddio medrau drafftio yn llwyddiannus i ddatblygu a gwella eu gwaith. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion uwch eu gallu mewn ystod o genres yn datblygu'n llawn yn y ddwy iaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn perthynas â'u gwaith ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, i ddewis thema'r tymor, maent yn casglu data a'i gyflwyno'n llwyddiannus ar ffurf graff bar ac yn trin arian yn hyderus yn eu siop deganau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni gwaith mathemateg ar lefel briodol yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn ysgrifennu a thrin rhifau hyd at chwe digid yn hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau pen yn bwrpasol i luosi a rhannu rhifau cyfain yn gywir. Fodd bynnag, prin iawn yw'r esiamplau gan ddisgyblion, o gymhwyso medrau rhifedd i feysydd a phynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Dros amser mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydiau ysgol am ddim wedi tanberfformio o gymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae perfformiad y disgyblion hyn wedi gwella ac mae'n cymharu'n fwy ffafriol â disgyblion eraill. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a gytunwyd iddynt. Serch hynny, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychain o ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

O gymharu ag ysgolion eraill tebyg, mae perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ar y lefel ddisgwyliedig dros y tair blynedd ddiwethaf wedi ei gosod yn y 50% is a'r 25% isaf mewn llythrennedd. Mae perfformiad yr ysgol wedi symud o 25% isaf i'r 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch mewn llythrennedd wedi cynyddu, gan symud yr ysgol o'r 50% is i'r 25% uchaf. Mae perfformiad yr ysgol wedi symud o'r 25% isaf i'r 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol.

O gymharu ag ysgolion eraill tebyg, mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Mae perfformiad yr ysgol wedi symud o'r 25% uchaf i'r 50% uwch yn y Gymraeg ac o'r 25% uchaf i'r 50% is mewn mathemateg a Saesneg. Gosodwyd perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth yn yr 25% isaf o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch yn y pedwar pwnc craidd wedi amrywio'n sylweddol dros gyfnod o dair blynedd. Mae perfformiad yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi symud yr ysgol i'r 25% uchaf. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi disgyn i'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

### Lles: Digonol

Mae'r disgyblion i gyd yn teimlo'n ddiogel iawn ac yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau ac yn ymateb yn hyderus i'r tasgau a roddir. Mae'r rhan fwyaf yn foesgar a chwrtais o amgylch yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac wrth chwarae gyda'i gilydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn manteisio ar gyfleoedd i gyfrannu eu syniadau i'r cynllunio. Mae ychydig iawn o ddisgyblion ar draws yr ysgol wedi dechrau gwerthuso eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o werthuso gwaith eu cyfoedion.

Mae cyngor yr ysgol yn weithgar ac yn dechrau dylanwadu ar benderfyniadau yn yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar maent wedi archebu adnoddau i ehangu profiadau disgyblion yn yr ardal allanol. Mae pedwar aelod o'r cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion yn eu rolau fel Eirth Adferol.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae strategaethau newydd i wella presenoldeb yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y gyfradd presenoldeb diweddaraf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn brydlon.

Mae'r disgyblion yn meddu ar brofiadau ehangach yn y gymuned drwy gystadlu yn yr eisteddfod leol a chymryd rhan mewn gwasanaethau yng nghapel y pentref. Mae hyn, ynghyd â chydweithio gydag aelodau o'r pentref i wella'r amgylchedd lleol yn datblygu eu medrau bywyd a chymdeithasol yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol gwricwlwm priodol sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r gwibdeithiau pwrpasol a chlybiau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau ac ehangu medrau corfforol y disgyblion yn effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dewis ystod o weithgareddau diddorol sy'n datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth ar draws pob maes dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi dewis thema siop deganau yn y gornel chwarae rôl ac wedi ymweld â siop deganau'r stryd fawr yn Abertawe. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r agweddau hyn wedi'u datblygu cystal, ac nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn addysg grefyddol a gwneud cynnydd mewn gwaith arbrofol mewn gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol wedi dechrau mapio'r medrau llythrennedd a rhifedd i'r pynciau cwricwlaidd yn unol â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r gweithgareddau i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, eu hanes a'u traddodiadau eu hunain yn briodol. Mae digwyddiadau fel eisteddfod yr ysgol a'r, pentref ac Eisteddfod yr Urdd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion am Gymru a'r iaith Gymraeg ymhellach.

Mae gweithgarwch y disgyblion ar ddinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n effeithiol yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn wybodus am fasnach deg a'u heffaith ac mae eu hymgyrch i godi arian ar gyfer nifer o elusennau yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion am dlodi. Mae'r ysgol yn ymddwyn yn gynaliadwy drwy ailgylchu a chompostio.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn modelu iaith dda ac yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol.

Yn y gwersi gorau mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda, mae'r cyflwyniadau'n fywiog ac maent yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion disgyblion o wahanol allu. Maent yn esbonio tasgau'n glir ac yn holi'n dreiddgar er

mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn pob disgybl. Mae perthynas waith effeithiol rhwng y disgyblion a'u hathrawon sy'n cyfrannu at ddysgu buddiol. Mae cyflymdra'r gwersi'n effeithiol.

Mewn gwersi, lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Nid yw athrawon yn holi cwestiynau agored sy'n annog disgyblion i feddwl ac ymresymu a gwella eu dealltwriaeth o'r gwaith.

Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn rhoi adborth llafar adeiladol. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio llyfrau'n rheolaidd ac yn cynnig sylwadau cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau'n sicrhau bod y disgyblion yn deall y camau nesaf i'w cymryd er mwyn gwneud cynnydd yn ddigon aml. Nid yw strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu cynnydd eu hunain a'u cyfoedion yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Gwneir defnydd addas o'r data i osod targedau ac i gynllunio strategaethau ymyrraeth bwrpasol.

Mae'r adroddiad blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth effeithiol o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd trwy weithgareddau corfforol a chlwb chwaraeon ar ôl ysgol.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a chymdeithasol y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol drwy thema drawsgwricwlaidd a gweithgareddau allgyrsiol. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu gwerthoedd yn addas ac mae sesiynau 'amser cylch' yn cyfrannu'n effeithiol tuag at les y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol megis seicolegydd addysg ac athrawon bro i fanteisio ar gymorth arbenigol i ddisgyblion pan fydd angen. Er enghraifft, mae cefnogaeth wythnosol ar gyfer grŵp o ddisgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar wella safon eu llafaredd yn y Gymraeg.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Defnyddia'r ysgol amrywiaeth o ddulliau priodol i adnabod anghenion y disgyblion, gan gynnwys profion darllen a rhifedd, ynghyd â barn broffesiynol yr athrawon. Mae'r disgyblion a'r athrawon yn cyd-weithio ar y cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n effeithiol tuag at weithredu'r rhaglenni ymyrraeth ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn gartrefol a chynhwysol sy'n darparu cyfle cyfartal i bawb. Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar ac mae awyrgylch cynnes a naturiol rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn dangos parch a chonsyrn tuag at ei gilydd a thuag at eraill sy'n llai ffodus na nhw. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn dda.

Mae'r ysgol wedi cael ei rhannu'n ddwy adeilad a gwneir defnydd da o'r amgylchedd i ddisgyblion ddysgu. Mae safle ac adeilad yr ysgol mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lliwgar gydag adnoddau pwrpasol ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a mannau cyhoeddus, mae'r staff yn gosod arddangosfeydd amrywiol sy'n cefnogi'r addysgu'n dda. Fodd bynag, prin yw cyfraniad y disgyblion i'r ardaloedd hyn.

Mae gan yr ysgol ardal allanol symbylol iawn sy'n darparu amgylchedd ysgogol ac amrywiol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Defnyddir adnoddau'r gymuned leol hefyd i ychwanegu at brofiadau dysgu'r disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth a gwerthoedd effeithiol i ysgogi cydweithio effeithiol ymysg staff. Mae agweddau i wella ansawdd y ddarpariaeth er mwyn sicrhau cwricwlwm cyson ar draws yr ysgol yn amlwg.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sydd yn nodi cyfrifoldebau priodol yn glir. Bu cynnydd pwrpasol yng nghyfraniad cydlynwyr Llythrennedd a Rhifedd yr ysgol i gyflwyno strategaethau i godi safonau disgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae cynllun ffoneg yn dechrau gwella agweddau o fedrau darllen cynnar y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y gwaith hwn yn llawn.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff yn effeithiol i drafod blaenoriaethau a chynnydd yn rheolaidd. Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu'n briodol at welliannau mewn dysgu ac addysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth gyflwyno blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gweithredu dulliau asesu ar gyfer dysgu ynghyd â mabwysiadu'r strategaethau llythrennedd a rhifedd yn cael effaith foddhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn derbyn gwybodaeth fanwl gan y pennaeth am berfformiad yr ysgol. Serch hynny, nid yw eu rôl strategol yn y broses hunanarfarnu wedi'i datblygu'n llawn ar hyn o bryd.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod bwrpasol o ffynonellau i gasglu tystiolaeth fel rhan o'r trefniadau gwella ansawdd. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad effeithiol o'r data, monitro gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barn staff a disgyblion. Mae'r holiaduron ar agweddau disgyblion tuag at eu hunain a'r ysgol, er enghraifft, yn rhoi darlun clir i arweinwyr er mwyn gwella agwedd lles yn effeithiol. Er hynny, nid yw casglu barn y llywodraethwyr a'r rhieni wedi datblygu'n llawn.

Yn gyffredinol, mae cofnodion yn deillio o graffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi yn rhoi darlun clir ac arfarnol. Mae'r adroddiadau dilynol sy'n crynhoi'r deilliannau monitro yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Maent yn rhoi sylw penodol i safonau a chynnydd ac yn adnabod meysydd i'w gwella'n glir. Gwneir defnydd priodol o'r adroddiadau i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno llyfrau drafftio sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau annibynnol y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen i wella safon eu gwaith ysgrifennu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cyflwyno darlun pwrpasol ar ystod briodol o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Ar y cyfan, mae'n cynnwys dadansoddiad effeithiol o ddata perfformiad cyfredol yr ysgol ac yn mynegi barnau cywir am safonau gwaith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'n cynnig darlun digon cywir o'r sefyllfa bresennol ac mae mannau lle mae angen gwelliant o ran safonau ac agweddau ar addysgu yn aneglur ar adegau. Nid yw'r cysylltiad rhwng y meysydd i'w gwella yn yr hunanarfarniad a thargedau yn y cynllun datblygu yn ddigon clir.

Mae'r cynllun datblygu yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, tystiolaeth allweddol, gofynion cyllidol a dulliau monitro cynnydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni, sy'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r disgyblion. Nodwedd dda o'r bartneriaeth gyda'r rhieni yw'r gefnogaeth effeithiol a gynigir iddynt i ddeall mentrau newydd a gyflwynir. Mae hyn wedi sicrhau ymrwymiad y rhieni yn y broses o wella safonau. Mae effaith cefnogaeth y rhieni i'w gweld yn y cynnydd o ran adnoddau technoleg gwybodaeth sydd yn cyfrannu'n dda at wella safonau yn y maes.

Mae'r cysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol a nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol yn ehangu a chyfoethogi medrau cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n agos â gymuned leol i greu llwybr o fuarth yr ysgol i'r amgylchedd ehangach. O ganlyniad, cynigir profiadau dysgu pellach i'r disgyblion,er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn wedi gweithio gydag asiantaeth cefn gwlad ar gywaith afonydd i wella eu dealltwriaeth o gadwraeth leol. Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o gydweithio gyda chyngor y gymuned i gynnig gwelliannau i amgylchfyd y pentref. Trwy hyn, maent wedi cyfrannu syniadau tuag at ddatblygu darpariaeth chwaraeon sy'n cael ei defnyddio'n rheolaidd gan yr ysgol.

Mae yna berthynas agos gyda'r grŵp cyn-ysgol sy'n cwrdd yn y neuadd yn wythnosol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion ifainc yn ymgartrefu'n fuan yn y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion i safoni a chymedroli gwaith disgyblion a rhannu profiadau. Mae hyn yn cael effaith bwrpasol ar ddealltwriaeth yr athrawon o'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chymwysterau priodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o gynorthwywyr dysgu a staff eraill ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser i athrawon gynllunio, paratoi, asesu ac i weithio ar y cyd yn effeithiol. Mae'r trefniadau newydd o gyd-gynllunio ar draws yr ysgol wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar y cynllunio hir dymor. O ganlyniad,i'r broses rheoli perfformiad, mae'r staff yn derbyn ystod o hyfforddiant pwrpasol sy'n ymateb yn briodol i flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion personol unigolion. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu rhwydwaith o arfer broffesiynol i ddatblygu tasgau rhifedd cyfoethog. Mae'n rhy gynnar yn y broses i fedru mesur effaith y tasgau ar y safonau ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol manwl ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n briodol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Er y niferoedd bychain o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd addas o'r grant amddifadedd i wella'r ddarpariaeth a deilliannau llythrennedd ar gyfer y disgyblion.

O ystyried y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702133 - YSGOL GYNRADD FELINDRE**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 57 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.9 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 5 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 75.0 | 80.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.0 | 80.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 40.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.0 | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.5 | 40.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 100.0 | 40.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702133 - YSGOL GYNRADD FELINDRE**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 57 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.9 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 8 | * | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 100.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 37.5 | * | 60.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 25.0 | * | 30.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 25.0 | * | 60.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 37.5 | * | 60.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 21 | 21 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 21 | 21 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 21 | 20 | 1 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 21 | 20 | 1 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 21 | 21 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 21 | 20 | 1 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 21 | 21 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 21 | 20 | 1 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 21 | 18 | 3 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 21 | 18 | 3 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 21 | 17 | 4 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 81% | 19% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 21 | 20 | 1 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 10 | 10<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 9 | 4<br>44% | 1<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 10<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 10 | 10<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Iona Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sara David | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.